Rheoli ac Atal Argyfwng

Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Lleihau perygl

Drwy gyflwyno ychydig o ragofalon syml gallwch atal perygl i'ch cartref a phryder i'ch teulu.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod

- lle mae'r stop tap (cyflenwad dŵr)
- sut i ddiffodd y cyflenwad nwy
- lle mae'r blwch ffiwsys trydanol
- sut i ddiffodd y trydan

Fe wnawn ni ddangos i chi lle mae'r stop tap a lle i ddiffodd y cyflenwadau ynni i'ch cartref pan fyddwch chi'n cael y goriadau. Hefyd fel arfer bydd cyfarwyddiadau yn un o gypyrddau'r gegin i'ch atgoffa chi. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr fod pawb ar yr aelwyd yn gwybod am y cyfarwyddiadau hyn hefyd, a sut i ddiffodd y gwasanaethau.

Atal tân

Pan ydych chi'n symud i'ch cartref newydd gwnewch eich hun yn gyfarwydd â'r llwybr dianc petai tân. Os oes tân gwnewch yn siŵr fod holl aelodau'r cartref yn gwybod sut i ffonio 999 a lle mae'r ffôn agosaf. Am fwy o wybodaeth, gweler Adran 8 – Cadw yn Gynnes a Diogel.

Bydd larwm mwg / synhwyrydd gwres yn eich cartref. Profwch rhain yn rheolaidd i weld eu bod yn gweithio, a cadwch nhw yn rhydd o lwch. Os nad ydych yn gallu cyrraedd y switsh profi ar yr uned yn ddiogel, gallwn ddarparu polyn profi.

Os oes tân sicrhewch fod pawb yn gadael yr adeilad, ond peidiwch â pheryglu eich hun. Gadewch i ni wybod yn syth fod tân wedi digwydd.

Diogelwch Nwy

Mae'r Gwasanaeth Argyfwng Nwy Cenedlaethol ar alwad 24 awr y dydd, bob diwrnod.

Os ydych chi'n arogli nwy:

- diffoddwch y cyflenwad nwy yn y mesurydd, oni bai bod y mesurydd wedi'i leoli yn y seler / islawr
- diffoddwch bob fflam agored, peidiwch ag ysmygu, tanio matsys na gwneud unrhyw beth a allai achosi tân
- peidiwch â throi unrhyw switsys trydanol ymlaen/i ffwrdd na gwneud unrhyw beth a allai greu sbarc trydanol
- agorwch yr holl ddrysau a ffenestri i awyru'r cartref
- cadwch bobl draw o'r ardal
- sicrhewch fod mynediad i'r adeilad
- ffoniwch y Gwasanaeth Argyfwng Nwy ar **0800 111999** ar unwaith o'r tu allan i'ch cartref
- hysbyswch y Gymdeithas ar unwaith

Diogelwch trydanol

Mae pobl yn defnyddio mwy a mwy o offer a theclynnau trydanol yn eu cartref y dyddiau hyn, ac mae hyn yn golygu bod angen cymryd gofal i osgoi perygl.

- peidiwch â defnyddio offer neu declynnau â nam arnynt yn eich cartref
- tynnwch y plwg o'r soced pan nad ydych chi'n defnyddio'r offer/teclynnau
- diffoddwch unrhyw swits neu soced â nam arno drwy roi'r swits ffiws ar gyfer y gylched yma I FFWRDD
- peidiwch â defnyddio addaswyr dwbl sy'n medru gorlwytho'r soced, yn hytrach dylech ddefnyddio un teclyn ar y tro neu, os yw'n angenrheidiol, defnyddiwch gebl estyniad sy'n cynnwys mwy nag un soced
- peidiwch â gosod ffitiadau trydanol newydd (er enghraifft, cawod) heb gael ein cyngor a'n caniatâd ni yn gyntaf
- gadewch i ni wybod am unrhyw broblemau trydanol ar unwaith

Os nad oes trydan, edrychwch yn gyntaf i weld a oes problem efo'r cyflenwad yn gyffredinol. Holwch eich cymdogion a oes ganddyn nhw drydan. Os nad oes trydan oherwydd bod ffiws wedi chwythu, ailosodwch y ffiws – os yw'n diffodd eto, diffoddwch y teclyn olaf y gwnaethoch ei ddefnyddio a thrio eto. Os nad yw hyn yn adfer eich cyflenwad trydan cysylltwch â ni am help.

Cofiwch, er eich diogelwch eich hun, ni ddylech addasu nac ymyrryd â'r gwifrau trydan yn eich cartref heb gael ein cyngor a'n caniatâd ni yn gyntaf.

Edrychwch ar Adran 8 "Cadw yn Gynnes a Diogel" am fwy o gyngor ac arweiniad.

Dŵr

Os oes pibell wedi byrstio neu'n gollwng yn ddifrifol:

- Rhowch ychydig o ddŵr i'w yfed mewn jygiau
- Defnyddiwch y stop tap i ddiffodd y cyflenwad dŵr
- Agorwch y tapiau dŵr oer nes eu bod yn stopio llifo
- Ffoniwch ni ar unwaith
- Diffoddwch y twymydd imyrsion
- Os oes dŵr yn gollwng wrth ymyl goleuadau neu socedi, diffoddwch y trydan wrth y mesurydd ar unwaith
- Diffoddwch y system wresogi. Os oes gennych chi system nwy, diffoddwch y bwyler. Os oes gennych chi system drydanol gwresogyddion storio gwres, rhowch bob soced i ffwrdd. Os oes gennych chi fwyler tanwydd solid gadewch i'r tân ddiffodd
- Rhowch y plwg yn y bath ac agor tap dŵr poeth y bath. Gellir defnyddio'r dŵr yma i fflysio'r toiled wedyn
- Daliwch y dŵr sy'n gollwng mewn bwced neu bowlen ac sugno unrhyw ddŵr gormodol efo llieiniau i atal difrod dŵr i'ch cartref
- Cadwch yn sych ac yn gynnes nes bo'r peiriannydd plymio yn cyrraedd

Os ydych chi'n penderfynu gadael eich cartref, gadewch i ni wybod sut i gysylltu â chi, a lle gallwn ni neu'r plymwr gael goriad.

Os yw eich pibellau dŵr wedi rhewi peidiwch BYTH â defnyddio chwythlamp, gan y bydd eich pibellau yn cracio neu'n ffrwydro. Dylech ddefnyddio sychwr gwallt neu wresogydd ffan yn agos at y rhan o'r bibell y tybiwch sydd wedi rhewi. Dechreuwch o'r pen agosaf at y tap. Ffordd arall yw gosod potel ddŵr poeth ar y bibell.